



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 1187 (Cy.145) (C.40)

2012 No. 1187 (W.145) (C.40)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Gorchymyn Mesur Llywodraeth
Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif
2 a Darpariaethau Arbed)
2012

The Local Government (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No. 2 and Saving Provisions)
Order 2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 178(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Hwn yw'r ail orchymyn cychwyn i'w wneud o dan y Mesur.

This Order is made under section 178(3) of the Local Government (Wales) Measure 2011 ("the Measure"). It is the second commencement order to be made under the Measure.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 30 Ebrill 2012 ddarpariaethau o'r Mesur a nodir yn yr erthygl honno ac y cyfeirir atynt isod;

Article 2 of this Order brings into force on 30 April 2012 provisions of the Measure set out in that article and referred to below;

Adrannau 5 i 7 (cefnogi aelodaeth);

Sections 5 to 7 (supporting membership);

Mae adran 5 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol gan eu haelodau a chan aelodau eu gweithrediaethau am eu gweithgareddau.

Section 5 imposes a duty on local authorities to make arrangements to publish annual reports by its members and by members of its executive about their activities.

Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru am amseru cyfarfodydd awdurdod lleol.

Section 6 requires a local authority to have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers about the timing of meetings of a local authority.

Mae adran 7 yn rhoi dyletswydd ar brif gynghorau i sicrhau bod hyfforddiant a chyfleoedd datblygu rhesymol yn cael eu darparu i'w haelodau.

Section 7 places a duty on principal councils to secure the provision of reasonable training and development opportunities for their members.

Adrannau 8 i 22 (gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol a dehongli);

Sections 8 to 22 (local authority democratic services and interpretation);

Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol ddynodi un o swyddogion yr awdurdod i fod yn bennaeth gwasanaethau democrataidd (swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol) ac maent hefyd yn darparu

These sections make provision for a local authority to designate one of the authority's officers to be the head of democratic services (a politically restricted post) and also provide for the functions of that officer. In

ar gyfer swyddogaethau'r swyddog hwnnw. Yn ychwanegol, mae'r adrannau hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i benodi pwyllgor o'r cyngor i oruchwylio gwaith gwasanaethau democrataidd.

Mae'r adrannau hyn hefyd yn darparu ar gyfer llywodraethu pwyllgor gwasanaethau democrataidd, ar gyfer ei adroddiadau ac ar gyfer ei drafodion.

Mae Gweinidogion Cymru yn cael pŵer gan adran 10 i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol fabwysiadu rheolau sefydlog am reoli staff sy'n adrodd wrth bennaeth gwasanaethau democrataidd.

Adrannau 23 i 33 (absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol);

Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth i aelodau awdurdodau lleol gael yr hawl i gymryd absenoldeb mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu a rhiant yn unol â rheoliadau a weir gan Weinidogion Cymru sy'n rhagnodi'r amodau ar yr hawl i'r cyfnod perthnasol o absenoldeb.

Adrannau 56 a 57 (arfer swyddogaethau gan gynghorwyr);

Mae adran 56 yn gwneud darpariaeth i alluogi aelod o awdurdod lleol sy'n cynrychioli'r weithrediaeth neu'r awdurdod ar gorff allanol i wneud penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod.

Mae adran 57 yn gwneud newidiadau canlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") a Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth newydd yn adran 56.

Adran 61 (personau dynodedig);

Mae adran 61 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi drwy orchymyn y personau hynny neu'r categorïau o bersonau ("person dynodedig") y caniateir craffu ar eu cyfrifoldebau neu eu swyddogaethau gan bwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod lleol.

Adran 62 (rhoi sylw i safbwyntiau'r cyhoedd);

Mae adran 62 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i alluogi'r cyhoedd i fynegi eu safbwyntiau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y pwyllgor.

Adrannau 63 i 65 (pwerau cynghorwyr);

Mae'r adrannau hyn yn diwygio adran 21A o Ddeddf 2000 i alluogi cynghorydd prif gyngor yng Nghymru i gyfeirio mater i bwyllgor trosolwg a chraffu os yw'r mater hwnnw yn ymwneud â chyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r cyngor neu sy'n effeithio ar y

addition, these sections impose a duty on a local authority to appoint a committee of the council to oversee the work of democratic services.

These sections also provide for the governance, reporting and proceedings of a democratic services committee.

The Welsh Ministers are empowered by section 10 to make regulations which require a local authority to adopt standing orders about the management of staff reporting to the head of democratic services.

Sections 23 to 33 (family absence for members of local authorities);

These sections make provision for members of a local authority to be entitled to take maternity, newborn, adoption and parental absence in accordance with regulations made by the Welsh Ministers which prescribe the conditions for entitlement to the relevant period of absence.

Sections 56 and 57 (exercise of functions by councillors);

Section 56 makes provision to enable a member of a local authority who represents the executive or the authority on an outside body to make decisions in relation to functions which are the responsibility of the authority's executive.

Section 57 makes consequential changes to the Local Government Act 1972 ("the 1972 Act") and the Local Government Act 2000 ("the 2000 Act") in connection with the new provision in section 56.

Section 61 (designated persons);

Section 61 permits the Welsh Ministers to designate by order those persons or categories of persons (a "designated person") whose responsibilities or functions may be scrutinised by an overview and scrutiny committee of a local authority.

Section 62 (taking into account the views of the public);

Section 62 imposes a duty on local authorities to make arrangements to enable the public to express their views in relation to any matter being considered by the committee.

Sections 63 to 65 (powers of councillors);

These sections amend section 21A of the 2000 Act to enable a councillor of a principal council in Wales to refer a matter to an overview and scrutiny committee which relates to the discharge of any of the functions of the council or which affects all or part of the electoral

cyfan neu ran o'r ardal etholiadol y mae'r cynghorydd yn ei chynrychioli ac maent hefyd yn gwneud darpariaeth am adroddiadau pwyllgor trosolwg a chraffu.

Adrannau 66 i 75 (penodi personau i gadeirio pwyllgorau);

Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud darpariaeth yn ei reolau sefydlog i benodi cadeiryddion i bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod a hefyd i wahardd rheolaeth gan blaid o'r pwyllgorau hynny. At hynny, mae'r adrannau hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau am y weithdrefn benodi i ddyrannu cadeiryddion pwyllgorau craffu ac i ddyroddi canllawiau neu gyfarwyddiadau.

Adran 78 (gwahardd pleidleisio o dan gyfarwyddyd chwip plaid a datgan cyfarwyddyd chwip plaid);

Mae'r adran hon yn gosod cyfyngiad ar reolaeth gan blaid ar bwyllgor trosolwg a chraffu.

Adrannau 81 i 87 (pwyllgorau archwilio);

Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benodi pwyllgor archwilio i adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod a swyddogaethau eraill a nodir yn adran 81, gan gynnwys gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

Adrannau 88 i 99 (cyfarfodydd cymunedol a phleidleisio cymunedol);

Mae'r adrannau hyn yn adolygu'r trefniadau a nodir yn Neddf 1972 i alw a threfnu cyfarfodydd cymunedol a phleidleisio cymunedol yng Nghymru.

Adrannau 142 - 143, 145, 148-152, 154, 155(2), (3) a (4) - 157 (Aelodau - Taliadau a Phensiynau (Rhan 8 o'r Mesur));

Cychwynwyd yr adrannau hyn yn rhannol gan Orchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011 (2011 Rhif 2011 (Cy.221) (C.74)) gan gymryd effaith o 31 Awst 2011 ymlaen mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Panel ynghylch yr adroddiad blynyddol cyntaf o dan adran 146 o'r Mesur.

Mae Rhan 8 o'r Mesur (adrannau 141 i 160) yn darparu ar gyfer taliadau a phensiynau i aelodau o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefi sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ("awdurdodau perthnasol"). Caiff Panel Annibynnol Cymru ar Gydnybuddiaeth Ariannol ("y Panel") benderfynu'r taliadau y caniateir eu gwneud mewn perthynas ag aelodau o awdurdodau perthnasol ac wrth wneud hynny, mae i nodi ei benderfyniadau mewn adroddiad blynyddol.

area which the councillor represents and they also make provision about the reports of an overview and scrutiny committee.

Sections 66 to 75 (appointing persons to chair committees);

These sections require a local authority to make provision in its standing orders for the appointment of chairs for the authority's overview and scrutiny committees and also prohibit party control of such committees. In addition, these sections empower the Welsh Ministers to make regulations about the appointment procedure for allocating scrutiny committee chairs and to issue guidance or directions.

Section 78 (prohibition of whipped votes & declaration of party whips);

This section imposes a restriction on party control of an overview and scrutiny committee.

Sections 81 to 87 (audit committees);

These sections require a local authority to appoint an audit committee to review and scrutinise the authority's financial affairs and the other functions set out in section 81, including the making of reports and recommendations in relation to these.

Sections 88 to 99 (community meetings and community polls);

These sections revise the arrangements set out in the 1972 Act for the calling and organisation of community meetings and community polls in Wales.

Sections 142 - 143, 145, 148 -152, 154, 155(2),(3) and (4) -157 (Members - Payments and Pensions (Part 8 of the Measure));

These sections were partially commenced by the Local Government (Wales) Measure 2011 (Commencement No. 1) Order 2011 (2011 No. 2011 (W.221)(C.74)) with effect from 31 August 2011 in respect of the functions of the Panel regarding the first annual report under section 146 of the Measure.

Part 8 of the Measure (sections 141 to 160) provides for payments and pensions to members of county and county borough councils, community councils, fire and rescue authorities and National Park authorities ("relevant authorities"). The Independent Remuneration Panel for Wales ("the Panel") may decide the payments which may be made in relation to members of relevant authorities and in doing so, is to set out its determinations in an annual report.

Adran 147 (adroddiadau blynyddol dilynol);

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyhoeddi adroddiadau blynyddol dilynol ynghylch arfer ei swyddogaethau am bob blwyddyn ariannol sydd ar ddod ar ôl y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012.

Adran 153 (cydymffurfio â gofynion y Panel);

Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer cydymffurfiaeth â gofynion y Panel mewn perthynas â thaliadau gan awdurdodau perthnasol.

Adran 155(1) (peidio â gwneud taliadau);

Mae'r adran hon yn gwahardd awdurdod perthnasol rhag gwneud taliadau i aelod sydd wedi cael ei atal neu ei atal yn rhannol o ganlyniad i gamymddygiad.

Adran 160 (diwygiadau canlyniadol) ac Atodlen 3 (taliadau a phensiynau; mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol);

Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n nodi mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth mewn cysylltiad â thaliadau aelodau a phensiynau o dan Ran 8 o'r Mesur.

Adran 176(1) (diwygiadau canlyniadol a diddymiadau);

Mae'r adran hon yn mewnosod is-adrannau newydd (5) i (7) i adran 106 o Ddeddf 2000.

Adran 176(2) a Rhannau A, D ac F o Atodlen 4 (diddymiadau a dirymiadau);

Mae erthygl 3 yn arbed darpariaethau penodol yn Rhan F o Atodlen 4 i'r Mesur (aelodau - taliadau a phensiynau (Rhan 8 o'r Mesur)) er mwyn i'r Rheoliadau a restrir yn y Rhan honno o'r Atodlen barhau i gael effaith at ddibenion penodol, er i'r Rheoliadau hynny gael eu dirymu ar 30 Ebrill 2012. Mae'r diben y mae'r Rheoliadau hyn yn parhau i gael effaith ato yn ymwneud â hawliadau am lwfansau neu daliadau eraill o dan y Rheoliadau hyn cyn 1 Ebrill 2012.

Gweler hefyd adran 178(1) (cychwyn) o'r Mesur ar gyfer darpariaethau a ddaeth i rym ar 11 Mai 2011 (drannoeth y diwrnod y cymeradwywyd y Mesur gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor) ac adran 178(2) ar gyfer darpariaethau a ddaeth i rym ar 10 Gorffennaf 2011 (diwedd y cyfnod o 2 fis a ddechreuodd ar y diwrnod y cymeradwywyd y Mesur gan Ei Mawrhydi yn ei Chyngor).

Section 147 (subsequent annual reports);

This section requires the Panel to publish subsequent annual reports about the exercise of its functions for each forthcoming financial year after the year beginning 1 April 2012.

Section 153 (compliance with Panel's requirements);

This section provides for compliance with the Panel's requirements in relation to payments by relevant authorities.

Section 155(1) (withholding payments);

This section prohibits a relevant authority from making payments to a member who has been suspended or partially suspended as a result of misconduct.

Section 160 (consequential amendments) and Schedule 3 (payments and pensions; minor and consequential amendments);

This section introduces Schedule 3 which sets out minor and consequential amendments to legislation in respect of members' payments and pensions under Part 8 of the Measure.

Section 176(1) (consequential amendments and repeals);

This section inserts new subsections (5) to (7) to section 106 of the 2000 Act.

Section 176(2) and Parts A, D and F of Schedule 4 (repeals and revocations);

Article 3 saves certain provisions of Part F of Schedule 4 of the Measure (members - payments and pensions (Part 8 of the Measure)) so that the Regulations listed in that Part of the Schedule continue to have effect for certain purposes, despite the revocation of those Regulations on 30 April 2012. The purpose for which these Regulations continue to have effect relates to claims for allowances or other payments under these Regulations before 1 April 2012.

See also section 178(1) (commencement) of the Measure for provisions which came into force on 11 May 2011 (the day after the day on which the Measure was approved by Her Majesty in Council) and section 178(2) for provisions which came into force on 10 July 2011 (the end of the period of 2 months beginning on the day on which the Measure was approved by Her Majesty in Council).

Nodyn ynghylch Gorchmynion Cychwyn Cynharach

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol y Mesur wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy Orchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011 (2011 Rhif 2011 (Cy.221) (C.74)), a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

<i>Y ddarpariaeth</i>	<i>Dyddiad cychwyn</i>	<i>O.S. Rhif</i>
Adranau 1 i 3	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 141	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 142 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 143 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 144	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 145 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 146	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 148 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 149 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 150 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 151 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 152 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 154 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 155(2), (3) a (4) (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 156 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 157 (yn rhannol)	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adran 158	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)

Note as to Earlier Commencement Orders

(This note is not part of the Order)

The following provisions of the Measure have been brought into force in relation to Wales by the Local Government (Wales) Measure 2011 (Commencement No. 1) Order 2011 (2011 No. 2011 (W.221)(C.74)), made before the date of this Order:

<i>Provision</i>	<i>Date of commencement</i>	<i>S.I. No</i>
Sections 1 to 3	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 141	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 142 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 143 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 144	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 145 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 146	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 148 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 149 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 150 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 151 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 152 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 154 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 155(2), (3) and (4) (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 156 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 157 (partially)	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Section 158	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)

Adran 161	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Adrannau 162 i 171	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)
Atodlen 2	31 Awst 2011	2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)

Section 161	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Sections 162 to 171	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)
Schedule 2	31 August 2011	2011 No.2011 (W.221)(C.74)

2012 Rhif 1187 (Cy.145) (C.40)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Mesur Llywodraeth
Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif
2 a Darpariaethau Arbed)
2012**

Gwnaed

29 Ebrill 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 178(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(1).

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 30 Ebrill 2012

2.—(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Mesur i rym ar 30 Ebrill 2012—

- (a) adrannau 5 i 7 (cefnogi aelodaeth);
- (b) adrannau 8 i 22 (gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol a dehongli);
- (c) adrannau 23 i 33 (absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol);
- (d) adrannau 56 a 57 (arfer swyddogaethau gan gynghorwyr);
- (e) adran 61 (personau dynodedig);
- (f) adran 62 (rhoi sylw i safbwyntiau'r cyhoedd);
- (g) adrannau 63 i 65 (pwerau cynghorwyr);
- (h) adrannau 66 i 75 (penodi personau i gadeirio pwyllgorau);
- (i) adran 78 (gwahardd pleidleisio o dan gyfarwyddyd chwip plaid a datgan cyfarwyddyd chwip plaid);

2012 No. 1187 (W.145) (C.40)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Local Government (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No. 2 and Saving Provisions)
Order 2012**

Made

29 April 2012

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred upon them by section 178(3) of the Local Government (Wales) Measure 2011(1).

Title and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Local Government (Wales) Measure 2011 (Commencement No.2 and Saving Provisions) Order 2012.

(2) In this Order "the Measure" ("*y Mesur*") means the Local Government (Wales) Measure 2011.

Provisions coming into force on 30 April 2012

2.—(1) The following provisions of the Measure come into force on 30 April 2012—

- (a) sections 5 to 7 (supporting membership);
- (b) sections 8 to 22 (local authority democratic services and interpretation);
- (c) sections 23 to 33 (family absence for members of local authorities);
- (d) sections 56 and 57 (exercise of functions by councillors);
- (e) section 61 (designated persons);
- (f) section 62 (taking into account the views of the public);
- (g) sections 63 to 65 (powers of councillors);
- (h) sections 66 to 75 (appointing persons to chair committees);
- (i) section 78 (prohibition of whipped votes & declaration of party whips);

- (j) adrannau 81 i 87 (pwyllgorau archwilio);
 - (k) adrannau 88 i 99 (cyfarfodydd cymunedol a phleidleisio cymunedol);
 - (l) adran 147 (adroddiadau blynyddol dilynol);
 - (m) adran 153 (cydymffurfio â gofynion y Panel);
 - (n) adran 155(1) (peidio â gwneud taliadau);
 - (o) adran 160 (diwygiadau canlyniadol);
 - (p) adran 176(1) (diwygiadau canlyniadol a diddymadau); a
 - (q) Atodlen 3 (taliadau a phensiynau: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol (Rhan 8 o'r Mesur)).
- (2) I'r graddau nad ydynt eisoes wedi eu cychwyn—
- (a) adrannau 142 a 143 (prif swyddogaethau'r Panel);
 - (b) adran 145 (adroddiadau blynyddol);
 - (c) adran 148 (ymgyngori ar adroddiadau drafft);
 - (d) adran 149 (cyfarwyddiadau i amrywio adroddiadau drafft);
 - (e) adran 150 (gofynion gweinyddol mewn adroddiadau);
 - (f) adran 151 (gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau);
 - (g) adran 152 (rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau);
 - (h) adran 154 (aelodau sy'n dymuno ymwrthod â'u hawl i gael taliadau);
 - (i) adran 155(2), (3) a (4) (peidio â gwneud taliadau);
 - (j) adran 156 (cyfarwyddiadau i gydymffurfio â gofynion);
 - (k) adran 157 (canllawiau);
 - (l) adran 176(2) (diwygiadau canlyniadol a diddymadau); ac
 - (m) Atodlen 4 (diddymadau a dirymiadau).

Cychwyn Rhan F o Atodlen 4 gydag arbedion

3—(1) Er i ddiddymiad a dirymiad y cofnodion yn Rhan F o Atodlen 4 ddod i rym yn unol ag erthygl 2(2)(l) ac (m), mae'r Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yn parhau i gael effaith fel pe baent heb eu dirymu gan y Mesur at y diben a nodir ym mharagraff (3).

(2) Dyma'r Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—

- (a) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 2002(1);

- (j) sections 81 to 87 (audit committees);
 - (k) sections 88 to 99 (community meetings and community polls);
 - (l) section 147 (subsequent annual reports);
 - (m) section 153 (compliance with Panel's requirements);
 - (n) section 155(1) (withholding payments);
 - (o) section 160 (consequential amendments);
 - (p) section 176(1) (consequential amendments and repeals); and
 - (q) Schedule 3 (payments and pensions: minor and consequential amendments (Part 8 of the Measure)).
- (2) In so far as they are not already commenced—
- (a) sections 142 and 143 (principal functions of the Panel);
 - (b) section 145 (annual reports);
 - (c) section 148 (consultation on draft reports);
 - (d) section 149 (directions to vary draft reports);
 - (e) section 150 (administrative requirements in reports);
 - (f) section 151 (publicity requirements in reports);
 - (g) section 152 (publicising reports);
 - (h) section 154 (members wishing to forgo payments);
 - (i) section 155(2), (3) and (4) (withholding payments);
 - (j) section 156 (directions to comply with requirements);
 - (k) section 157 (guidance);
 - (l) section 176(2) (consequential amendments and repeals); and
 - (m) Schedule 4 (repeals and revocations).

Commencement of Part F of Schedule 4 with savings

3—(1) Despite the coming into force in accordance with article 2(2)(l) and (m) of the repeal and revocation of the entries in Part F of Schedule 4, the Regulations referred to in paragraph (2) continue to have effect as if they had not been revoked by the Measure for the purpose set out in paragraph (3).

(2) The Regulations referred to in paragraph (1) are—

- (a) the Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils and National Park Authorities) (Wales) Regulations 2002(1);

(1) O.S. 2002/1895.

(1) S.I. 2002/1895.

- (b) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cyngorau Cymuned) (Cymru) 2003(1);
- (c) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004(2); a
- (d) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007(3).

(3) Y diben y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw hawliadau a wneir am lwfansau neu daliadau eraill mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy a gyflawnir cyn 1 Ebrill 1 2012.

- (b) the Local Authorities (Allowances for Members of Community Councils) (Wales) Regulations 2003(1);
- (c) the Local Authorities (Allowances for Members of Fire Authorities) (Wales) Regulations 2004(2); and
- (d) the Local Authorities (Allowances for Members) (Wales) Regulations 2007(3).

(3) The purpose referred to in paragraph (1) is that of claims made for allowances or other payments in respect of approved duties performed before 1 April 2012.

Carl Sargeant

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Local Government and Communities, one of the Welsh Ministers

29 Ebrill 2012

29 April 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

© Crown copyright 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2003/895.

(2) O.S. 2004/2555.

(3) O.S. 2007/1086.

(1) S.I. 2003/895.

(2) S.I. 2004/2555.

(3) S.I. 2007/1086.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1187 (Cy.145) (C.40)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Mesur Llywodraeth
Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif
2 a Darpariaethau Arbed)
2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1187 (W.145) (C.40)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Local Government (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No. 2 and Saving Provisions)
Order 2012